**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (NANTGAREDIG, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40 yn Nantgaredig, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd y B4310 hyd at bwynt 80 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno yn Nantgaredig.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar yr A40 tua'r gorllewin i Gylchfan Glangwili, yr A40 tua'r de-orllewin i Gylchfan Pensarn, yr A48 tua'r de-ddwyrain i Gylchfan Cross Hands, yr A476 tua'r gogledd-ddwyrain i Ffair-fach a'r A483 tua'r gogledd drwy Landeilo i ailymuno â'r A40. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) o 8 Gorffennaf 2024 hyd 12 Gorffennaf 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (NANTGAREDIG, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on the A40 trunk road at Nantgaredig, in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A40 trunk road that extends from a point 150 metres west of the centre point of its junction with the B4310 road to a point 80 metres east of that said junction at Nantgaredig.

The alternative route for eastbound vehicles will be via the westbound A40 to Glangwilli Roundabout, south-westbound A40 to Pensarn Roundabout, south-eastbound A48 to Cross Hands Roundabout, north-eastbound A476 to Fairfach and northbound A483 through Llandeilo to re-join the A40. Vice versa for westbound vehicles.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight (20:00 hours to 06:00 hours) from 8 July 2024 until 12 July 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government